**CYTÛN: Eglwysi ynghyd yng Nghymru**

**Swyddog Polisi (21 awr yr wythnos)**

£24,457

**Yn atebol i:**

- Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn

**Pwrpas y Swydd**

Hybu gwaith yr eglwysi trwy sicrhau cyfathrebu cyson ac amserol rhwng yr eglwysi â Llywodraeth, Senedd a chyrff cyhoeddus Cymru, a chynorthwyo eglwysi a mudiadau Cristnogol i gymryd rhan lawn yn y maes cyhoeddus yng Nghymru.

**Cyfrifoldebau a Swyddogaethau Cysylltiedig:**

**1. Darparu gwybodaeth i'r eglwysi sy'n aelodau o Cytûn:**

- drwy eu hysbysu am ddatblygiadau penodol y Senedd a Llywodraeth Cymru y mae angen tynnu eu sylw atynt
- drwy baratoi papurau briffio rheolaidd yn amlygu rhaglen waith y Senedd a Llywodraeth Cymru, ymgynghoriadau cyfredol a datblygiadau deddfwriaethol
- drwy adrodd, yn ôl yr angen, i arweinwyr a chyrff llywodraethu eglwysig
- drwy gefnogi gwaith staff a phwyllgorau materion cyhoeddus enwadol
- cynnal adran polisi cyhoeddus ar wefan Cytûn

**2 Gwneud gwaith aelod eglwysi Cytûn yn hysbys ymhlith aelodau'r Senedd a Llywodraeth Cymru:**

- drwy roi gwybod i aelodau'r Senedd, a gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru am bolisïau a phenderfyniadau aelod eglwysi Cytûn

- drwy helpu aelodau Cytûn i baratoi tystiolaeth gerbron Pwyllgorau a phrosesau ymgynghorol y Senedd
- drwy hwyluso cyfarfodydd rhwng arweinwyr eglwysi Cytûn, aelodau'r Senedd a gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru
- drwy gynorthwyo grwpiau lleol a rhanbarthol Cytûn ac asiantaethau i ymwneud â phwyllgorau'r Senedd

**3. Hwyluso cydweithio rhwng yr Eglwysi, cymunedau ffydd Cymru ac asiantaethau'r Llywodraeth:**

- cynorthwyo Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â phryderon polisi cyhoeddus cymunedau ffydd
- drwy gynorthwyo Cyngor Rhyng-ffydd Cymru i ymgysylltu â Chyngor Partneriaeth Trydydd Sector Llywodraeth Cymru
- drwy fonitro ac ymgysylltu â Grŵp 'Radar' San Steffan yr eglwysi
- drwy ymgysylltu â Swyddog Seneddol Eglwysi'r Alban [SCPO]
- drwy gysylltu â phersonél ac asiantaethau'r Eglwys a Chymdeithas CTBI
- drwy'r Grwp Laser, y bydd y Swyddog yn gweinyddu
- Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn (ysgrifennydd) a Rhwydwaith Cyfiawnder Hiliol (cynghori)
- Cefnogi Swyddogion Eiddo'r eglwysi i weithio gyda Llywodraeth Cymru a bod yn aelod o Weithgor y Swyddfa Gartref ar Ddiogelwch Addoldai

Efallai y bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn gofyn i'r Swyddog Polisi ymgymryd â thasgau heblaw'r rhai uchod fel y cytunir arnynt gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.